Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 27/04/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo yn eu Cymreictod ac yn dangos agweddau cadarnhaol iawn tuag at yr iaith Gymraeg. Mae bron bob un o'r athrawon yn meithrin perthnasoedd gwaith cynhyrchiol â disgyblion ac yn darparu amgylchedd dysgu pwrpasol ble mae disgwyliadau uchel o ran ymddygiad ac ymgysylltiad. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud o leiaf y cynnydd disgwyliedig yn eu dysgu, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion yr 'Hafan'. Gwna leiafrif o ddisgyblion gynnydd cryf a buan o ganlyniad i addysgu effeithiol iawn.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog, gan gynnwys ystod helaeth o brofiadau allgyrsiol gwerthfawr. Mae'r rhain yn cael effaith sylweddol ar ddatblygiad personol a chymdeithasol disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafaredd disgyblion yn gryfder nodedig. Yn ogystal, mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth amlwg i ddatblygu medrau darllen disgyblion, gan gynnwys eu hannog i ddarllen er pleser a darparu cyfleoedd addas iddynt ddefnyddio eu huwch fedrau darllen mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o gydraddoldeb, amrywiaeth a gwrth-hiliaeth yn llwyddiannus. Mae gwaith y grŵp disgyblion lleiafrifoedd ethnig wedi dylanwadu'n fuddiol ar ddatblygu darpariaeth sydd yn dathlu amrywiaeth a chodi ymwybyddiaeth staff o brofiadau bywyd go iawn disgyblion.

Mae darpariaeth rhifedd yr ysgol uchaf yn gryf ac yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mewn gwahanol bynciau. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion yr ysgol isaf gymhwyso eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau gwahanol bob amser yn ddigon cyson. Er bod llawer o gyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu medrau digidol ar draws y cwricwlwm, nid yw'r ddarpariaeth wedi'i chydlynu'n llawn i sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau yn gynyddol dros amser.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gymorth a chefnogaeth ar gyfer lles disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys darpariaeth yr 'Hafan', yn nodwedd gref.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr wedi sicrhau nifer o welliannau pwysig ac yn hyrwyddo diwylliant cryf o gydweithio a dysgu proffesiynol. Elfen nodedig o hyn yw'r prosiectau ymholi gwerthfawr a gyflawnir gan athrawon. Er bod presenoldeb wedi gwella'n ddiweddar, mae lefelau presenoldeb dros amser yn rhy isel. Yn ogystal, mae'r ysgol yn gweithio gyda'r awdurdod lleol mewn perthynas â diffyg ariannol.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Gwella presenoldeb

A2 Cysoni’r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd a digidol ar draws yr ysgol

A3 Gweithio gyda’r awdurdod lleol i fynd i’r afael â’r diffyg yn y gyllideb

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/07/2026